# Biopsi o Geudod y Genau (Ceg)

## Cyngor Rhyddhau

**Biopsi o Geudod y Genau (Ceg):**
Mae'r biopsi yn golygu bod ardal o feinwe sy'n ymddangos yn annormal yn cael ei gymryd o'r tu mewn i'r geg. Fe'i hanfonir wedyn i'r labordy i'w dadansoddi er mwyn cael diagnosis. Os bydd yr ardal o feinwe annormal yn fach, gellir perfformio biopsi toriad (tynnu'r ardal annormal yn gyfan gwbl).
Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r biopsi yn cael ei wneud o dan anesthetig lleol (chwistrelliad i wneud yr ardal yn ddideimlad). Weithiau mae angen anesthetig cyffredinol yn arbennig mewn plant neu pan fo'r annormaledd yn nghefn y geg.
Os ydych chi wedi cael anesthetig cyffredinol, dylech chi gael diet ysgafn ac osgoi diodydd ffisiog ar y diwrnod ar ôl llawdriniaeth i atal salwch. Dylech fynd yn syth i'r cartref o'r ysbyty a gorffwys am o leiaf 24 awr.

**Gwaedu:**
Fel arfer, ychydig iawn o waedu fydd ar adeg y llawdriniaeth a bydd hyn fel arfer yn setlo o fewn cyfnod byr. Pe bai safle'r biopsi yn dechrau gwaedu ar ôl eich rhyddhau, dylech rhoi pwysau ar yr ardal gan ddefnyddio darn o liain rhwyllog/brethyn am 10 munud. Os bydd y gwaedu yn parhau, cysylltwch â'r adran ar un o'r rhifau ffôn a ddarperir.

**Glanweithdra Geneuol:**
Dylech lanhau'ch dannedd fel arfer. Os yw bwyd yn cael ei ddal yn eich pwythau, gallwch chi ei olchi i ffwrdd â chegolch deintyddol (ar gael gan eich fferyllfa leol/archfarchnad) neu ddŵr hallt.

**Cyfnod adfer:**
Mae poen ac anghysur yn tueddu i fod yn ysgafn ac fel arfer mae'n gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor penodol ar leddfu poen cyn i'ch nyrs eich rhyddhau. Fel arfer mae poenladdwyr syml fel paracetamol ac ibuprofen yn effeithiol. Os ydych wedi cael y driniaeth o dan anesthetig lleol, gallwch ddychwelyd i'r gwaith/ysgol y diwrnod canlynol. Ar ôl anesthetig cyffredinol, argymhellir 48 awr i ffwrdd o'r gwaith / ysgol.

**Ôl-driniaeth:**

Bydd eich llawfeddyg yn cynghori cyn eich rhyddhau o'r ysbyty os oes angen apwyntiad claf allanol dilynol ai peidio. Efallai y bydd y llawfeddyg yn ysgrifennu atoch chi gyda canlyniadau'ch biopsi (ar gael fel arfer 2-3 wythnos ar ôl llawdriniaeth). Os dywedir wrthych bod angen apwyntiad dilynol arnoch i dderbyn y canlyniadau, ond nad ydych chi'n derbyn apwyntiad, ffoniwch y swyddfa apwyntiadau cleifion allanol ar 01495 765055.

**<u>GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG</u>**

**09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch â'r Uned Llawfeddygaeth Ddydd ar 01633 234199 / 01633 234196 neu ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ar 01633 234018

**Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion)**: Ward C0 01633 493926.

**Ar ôl 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 01633 493609.

**<u>Mewn achos brys, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.</u>**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English"**